**Croeso**

Eglurais y mis diwethaf fod y DBS yn wynebu lefel o newid nas gwelwyd ei debyg o'r blaen. Rydym wedi bod yn gweithio gyda llawer o ansicrwydd oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, ac mae wedi bod yn rhwystredig iawn i ni beidio â gallu rhannu cynllun clir ar gyfer ein gwasanaethau gyda chi. Yr wyf felly yn falch iawn o ddweud wrthych ein bod yn disgwyl lansio ein Gwasanaeth Diweddaru newydd yn yr haf.

Mae hyn ychydig yn hwyrach nag a gynlluniwyd oherwydd dyfarniad hidlo'r Llys Apêl ynghylch datgelu rhai hen euogfarnau, euogfarnau mân a rhybuddion. Y mis diwethaf, fe ddywedais wrthych fod y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyflwyno cais i apelio yn erbyn y dyfarniad. Maent bellach wedi dechrau ar y broses ddeddfwriaethol (yn amodol ar gytundeb gan y Senedd) fel na fydd rhai hen euogfarnau a mân euogfarnau a rhybuddion yn cael eu datgelu mwyach ar Dystysgrif DBS.

Ni fydd y newidiadau hyn yn dod i rym tan ar ôl i'r ddeddfwriaeth gwblhau ei thaith drwy'r Senedd. Tan hynny, mae hi'n fusnes fel arfer. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am y broses hon ac yn rhoi mwy o wybodaeth i chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Gadewch i ni fynd yn ôl at y Gwasanaeth Diweddaru - rydym yn sylweddoli fod yna farn gymysg am hwn ac y bydd yn newid ein perthynas gyda chi yn ogystal â'n hymgeiswyr am ddatgeliad. Rydym wedi manteisio ar ein cyfnod datblygu i siarad â rhai ohonoch trwy ymchwil marchnad. Rydym yn awyddus i fesur faint rydych yn ei wybod ac yn ei deimlo am y gwasanaeth. Rydym yn awyddus i'ch helpu i ddeall y broses hefyd a manteisio ar ei buddion.

Mae miloedd ohonoch yn edrych ymlaen at dderbyn ein rhifyn nesaf yn electronig. Gan mai hwn fydd y copi papur olaf, os nad ydych wedi cofrestru, cymerwch eiliad yn awr i fynd i www.gov.uk/dbs ac edrych am y ddolen i'r e-gronfa ddata.

Gyda fy nymuniadau gorau

Adriènne Kelbie
Prif Weithredwr

**Y Gwasanaeth Diweddaru: beth sydd angen i chi ei wybod**

Beth yw'r Gwasanaeth Diweddaru?

Mae'r gwasanaeth tanysgrifio newydd hwn yn gadael i unigolion gadw eu Tystysgrifau DBS yn gyfredol fel y gallant fynd â nhw gyda nhw pan fyddant yn symud swyddi neu rolau. Gallwch chi, fel cyflogwr, wedyn gynnal gwiriadau ar-lein rhad ac am ddim ar unwaith i weld a oes unrhyw wybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers dosbarthu'r Dystysgrif - gelwir hyn yn wiriad Statws.

Gallai hyn olygu dim mwy o ffurflenni cais i'w llenwi a dim aros i'r gwiriadau ddod yn ôl. Dylai hyn arbed amser ac arian i chi.

Pam yr ydym yn ei lansio?

Un o flaenoriaethau'r llywodraeth yw ailwampio'r drefn cofnodion troseddol er mwyn rhoi mwy o reolaeth i unigolion ar eu gwybodaeth eu hunain, caniatáu i Dystysgrifau DBS gael eu hailddefnyddio wrth wneud cais am swyddi tebyg a lleihau baich biwrocratiaeth ar gyflogwyr.

Pwy all wneud gwiriad Statws?

Nid oes rhaid i chi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru, na thalu ffi, i wirio Tystysgrif DBS. Ond mae'n rhaid i chi gael caniatâd yr unigolyn, bod â hawl gyfreithiol i wneud cais am dystysgrif DBS o'r un math a lefel â'r un rydych yn mynd i'w gwirio, ac mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru. Pan fyddwch yn gwneud gwiriad Statws, mae angen i chi gadarnhau bod gennych hawl i wneud y gwaith a'ch bod yn gallu cydymffurfio â'n Cod Ymarfer. Os ydych yn ansicr, ewch i www.gov.uk/dbs i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad.
Beth sydd angen i chi ei wneud i gynnal gwiriad Statws?

- Cael caniatâd yr ymgeisydd naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- Gweld y Dystysgrif wreiddiol i sicrhau ei bod o'r un math a lefel ag y mae gennych hawl gyfreithiol iddi, gofalu bod y gwiriadau cywir wedi cael eu gwneud i weld pa wybodaeth a ddatgelwyd am yr ymgeisydd, os datgelwyd unrhyw wybodaeth o gwbl.
- Gwirio hunaniaeth y person.
- Gwirio bod yr enw ar y Dystysgrif DBS yn cyfateb i'r hunaniaeth hon.
- Nodi rhif cyfeirnod y Dystysgrif DBS, enw'r person a dyddiad geni.
- Cydymffurfio â Chod Ymarfer DBS, sy'n cynnwys bod â pholisi ar recriwtio cyn-droseddwyr (mae sampl ar gael o'n hadran cyhoeddiadau ar www.gov.uk/dbs), a sicrhau bod hwn ar gael i'r person.

Beth mae canlyniadau'r gwiriad Statws yn ei olygu?

Pan fyddwch yn cynnal gwiriad Statws, byddwch yn derbyn un o'r canlyniadau canlynol ar unwaith:

Ni wnaeth y dystysgrif ddatgelu unrhyw wybodaeth ac mae'n dal yn gyfredol gan na chafodd unrhyw wybodaeth bellach ei nodi ers ei chyhoeddi.

Mae hyn yn golygu:

- Cafodd y Dystysgrif ei chyhoeddi yn wag - nid oedd yn datgelu unrhyw wybodaeth am y person.
- Ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth newydd ers ei chyhoeddi a gellir ei derbyn felly fel un sy'n dal yn gyfredol a dilys.

Mae'r Dystysgrif hon yn dal i fod yn gyfredol gan na chafodd unrhyw wybodaeth bellach ei nodi ers ei chyhoeddi.

Mae hyn yn golygu:

- Datgelodd y Dystysgrif wybodaeth am y person.

- Ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth newydd ers ei chyhoeddi a gellir ei derbyn felly fel un sy'n dal yn gyfredol a dilys.

Nid yw'r Dystysgrif hon bellach yn gyfredol. Gwnewch gais am wiriad DBS newydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae hyn yn golygu:

- Daeth gwybodaeth newydd i'r amlwg ers i'r Dystysgrif gael ei chyhoeddi a bydd angen i chi wneud cais am wiriad DBS newydd i weld y wybodaeth newydd hon.

Nid yw'r manylion a gofnodwyd yn cyfateb i'r rhai a ddelir ar ein system. Gwiriwch hyn a rhowch gynnig arall arni.

Mae hyn yn golygu naill ai:

• Nid yw'r unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, neu

• Mae'r Dystysgrif wedi cael ei dileu o'r Gwasanaeth Diweddaru gan yr unigolyn, neu

• Nid ydych wedi cofnodi'r wybodaeth yn gywir.

Beth arall sydd angen i chi ei wybod?

Mae Gwiriadau Statws yn rhad ac am ddim a gellir eu gwneud pryd bynnag y dymunwch; ar yr amod bod gennych ganiatâd yr unigolyn ar gyfer pob gwiriad a wnewch (efallai y byddwch am gael caniatâd bob tro y byddwch yn gwirio neu

gallech ystyried gofyn am gydsyniad parhaus - eich dewis chi yw hyn!)  Gallwch ddewis talu am neu ad-dalu ffi tanysgrifio blynyddol yr ymgeisydd i'r Gwasanaeth Diweddaru (tua £10). Bydd yr unigolyn yn gallu gweld pwy sydd wedi cynnal gwiriad Statws, a phryd y gwnaethant hynny, o'u cyfrif ar-lein.

Beth ddylech chi ei wneud nawr?

- Annog eich staff a gwirfoddolwyr i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru pan fydd yn bryd iddynt gael gwiriad DBS newydd; (yn unol â'ch polisïau ail-wirio presennol.)

- Adolygu eich polisïau cyflogaeth a recriwtio i weld sut y gall gwiriadau Statws ffurfio rhan o'r prosesau hyn.

- Cofrestru i dderbyn cyhoeddiadau a Newyddion DBS yn electronig ar www.gov.uk/dbs gan ddefnyddio'r ddolen gyflym ar frig y dudalen. Ni fydd Newyddion DBS ar gael ar bapur mwyach felly peidiwch â cholli'r cyfle i'w ddarllen  gan y byddwn yn parhau i edrych ar y Gwasanaeth Diweddaru yn fanwl yn rhifynnau'r dyfodol.

- Cadwch lygad allan am newyddion am y Gwasanaeth Diweddaru ac am y canllawiau i ymgeiswyr a chyflogwyr pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Yna gofalwch eich bod yn dod yn gyfarwydd â'r rhagolygon a'r canllawiau sgrin ar www.gov.uk/dbs. Byddant yn cynnwys gwybodaeth ac enghreifftiau defnyddiol am y rhai a allai gael budd o'r gwasanaeth.

Y manteision i chi

- Gwiriad ar-lein mewn ennyd o Dystysgrifau DBS
- Dim mwy o ffurflenni cais DBS i'w llenwi
- Efallai na fydd angen i chi fyth eto wneud cais am wiriad DBS i gyflogai
- Llai o fiwrocratiaeth
- Arbed amser ac arian i chi
- Hawdd i'w gynnwys o fewn eich prosesau

**Mae Adran x61 yn cael ei hymestyn**

Ar yr un pryd ag yr ydym yn lansio'r Gwasanaeth Diweddaru, byddwn yn cyflwyno rhai newidiadau pellach i wella'r broses Datgeliad gyffredinol. Mae un o'r rhain yn estyniad i adran x61 ar y ffurflen gais.

Wrth ystyried a ddylid rhyddhau gwybodaeth nad yw'n euogfarn am unigolyn, bydd yr heddlu'n cymhwyso'r prawf perthnasedd at weithlu yn hytrach nag un swydd neu rôl. Mae hyn yn newyddion da i chi gan ei fod yn golygu pan fyddwch yn cynnal gwiriad Statws, byddwch yn gwybod bod y wybodaeth a ryddheir yn berthnasol i'r gweithlu a ddisgrifir ar y Dystysgrif.

I'ch helpu i ddweud wrthym ba weithlu y mae'r ymgeisydd yn gweithio ynddo, byddwn yn rhoi mwy o le i chi lenwi'r maes 'swydd yr ymgeisir amdani' (adran x61) ar y ffurflen gais . Mae angen i chi wneud yn siŵr fod yr adran hon yn cael ei chwblhau yn gywir neu efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth gan arwain at arafu eich proses recriwtio.

Cwblhewch y maes fel a ganlyn:

- x61 llinell 1: Mae'n rhaid i chi bellach gynnwys y gweithlu(oedd) perthnasol. Dewiswch yr un priodol:
  - Gweithlu Plant
  - Gweithlu Oedolion
  - Gweithlu Plant ac Oedolion
  - Gweithlu Arall (defnyddiwch hwn pan nad yw'r person yn gweithio gyda phlant neu oedolion).

- x61 llinell 2: Rhowch ddisgrifiad o'r 'swydd yr ymgeisir amdani' hyd at 30 nod.

**Tystysgrifau Ymgeiswyr yn unig**

I gyd-fynd â lansio'r Gwasanaeth Diweddaru, byddwn yn cyhoeddi Tystysgrifau DBS i ymgeiswyr yn unig, ac ni fyddwn bellach yn anfon copi at y Corff Cofrestredig. Bydd angen i gyflogwyr ofyn i ymgeiswyr am gael gweld eu Tystysgrif DBS. Ond bydd Cyrff Cofrestredig yn dal yn gallu gofyn i ni am gopi o Dystysgrif DBS ymgeisydd ond dim ond os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae'r unigolyn yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, ac

- Mae'r cyflogwr wedi cynnal archwiliad Statws a ddatgelodd newid i'r Dystysgrif DBS, ac o ganlyniad

- Mae'r unigolyn wedi gwneud cais am wiriad DBS newydd o ganlyniad i newid i Dystysgrif DBS bresennol; ac

- Fe wnaethom ddyroddi'r Dystysgrif DBS newydd i'r ymgeisydd fwy na 28 diwrnod yn ôl, ac

- Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos ei Dystysgrif DBS newydd i'r cyflogwr.

Os yw'r ymgeisydd yn creu anghydfod ynghylch y Dystysgrif newydd, ni fyddwn yn dyroddi copi i'r Corff Cofrestredig tan 28 diwrnod ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys.

## Adran x66: helpu i gael pethau'n iawn

Cysylltwyd â ni gan nifer o'n lluoedd heddlu sy'n dweud eu bod yn delio â nifer sylweddol o geisiadau sy'n seiliedig yn y cartref. Ar ôl gwneud ymholiadau pellach, rydym wedi darganfod nad yw nifer o'r rhain yn rhai sy'n seiliedig yn y cartref mewn gwirionedd.

Mae ceisiadau yn y cartref yn rolau sy'n golygu gweithio gyda phlant ac oedolion yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Ar gyfer y math hwn o wiriad, mae'r heddlu yn chwilio trwy eu cronfeydd data i nodi unrhyw wybodaeth berthnasol. Gallai hyn gymryd llawer o amser a gallai arwain at y ffaith nad yw gwiriad DBS yn cael ei gwblhau mor gyflym â gwiriad nad yw'n seiliedig yn y cartref.

Er mwyn osgoi oedi diangen ac i gydymffurfio â deddfwriaeth, mae angen i chi wneud yn siŵr bod adran x66 y ffurflen gais (a yw'r swydd hon yn golygu gweithio gyda phlant neu oedolion bregus yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd?) wedi ei llenwi'n gywir.

Dylech groesi 'Ie' yn adran x66 ar gyfer ymgeiswyr sy'n mynd i fod yn gweithio gyda phlant a/neu oedolion yng nghyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn unig. Efallai y bydd unigolion eraill sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n gymwys am wiriad DBS, ond gan nad ydynt yn cael eu cyflogi i weithio gyda phlant a/neu oedolion, dylech groesi 'Na' yn y maes hwn ar y ffurflen gais.

Y Darn Cyfreithiol
Mae Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Diwygiad Rhif 2) 2010 SI 2010/2702 yn datgan pryd y dylai gwiriadau manylach DBS gael eu hanfon at yr heddlu i'w hystyried ar gyfer gwybodaeth berthnasol arall. Un o'r adegau hyn yw: "pan fo'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas â diben rhagnodedig sydd i gael ei gyflawni'n bennaf yn y lle mae'r ymgeisydd yn byw."

Nid yw'r Rheoliadau uchod yn cynnwys aelodau eraill y cartref.

Mae gan unrhyw berson sy'n 16 oed neu drosodd ac sy'n byw yn yr un cartref â'r unigolyn sy'n cael ei wirio, hawl i gael gwiriad Manylach y DBS, heb y gwiriad sy'n seiliedig yn y cartref.

Enghreifftiau pryd y dylech groesi 'Ie' yn adran x66:

- Gofalwyr maeth sy'n gofalu am blant yng nghartref y gofalwr maeth ei hun.

- Gwarchodwyr plant sy'n gofalu am blant yng nghartref y gwarchodwr plant ei hun.

- Enghreifftiau pryd y dylech groesi 'Na' yn adran x66:

- Aelodau sy'n oedolion o aelwyd y gofalydd maeth.

- Aelodau sy'n oedolion o aelwyd y gwarchodwr plant.

**Ein cartref ar-lein newydd - GOV.UK**

Mae ein gwybodaeth i gyd bellach wedi dod o hyd i gartref newydd yn www.gov.uk - felly ychwanegwch gyfeiriad y wefan hon at eich ffefrynnau gwe! Mae'n ddrwg gennym y symudwyd i'r wefan newydd yn gynt nag a fwriadwyd; yn anffodus roedd hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, ac rydym yn gobeithio na wnaeth beri gormod o anghyfleustra i chi.

Os ydych am fynd yn syth i'n tudalennau ar GOV.UK, dyma ychydig o gysylltiadau defnyddiol i chi roi nod tudalen arnynt:

- www.gov.uk / disclosure-barring-service-check (ein gwybodaeth a'n canllawiau a anelir at gwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd)

- www.gov.uk/dbs (mae'r adran 'Inside Government' yn cynnwys ein newyddion diweddaraf i gyd a gwybodaeth gorfforaethol ac am bolisïau)

Gallwch fynd i'r adran 'Inside Government' o hafan GOV.UK - sgroliwch i lawr y dudalen hafan ac fe welwch y ddolen!

Mae 'Inside Government' yn dal i fod yn waith sydd ar y gweill, ond rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych am y cynnwys. Gadewch i ni wybod beth yw eich barn ar customerservices@dbs.gsi.gov.uk